# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fioamrywiaeth

**Dydd Mawrth 22 Mai 2018, 12:00–15:00**

Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel

## Cofnodion

## Yn bresennol

| | | |
|---|---|---|
| Simon Thomas AC | Plaid Cymru - Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol | ST |
| Jenny Rathbone AC | Llafur Cymru | JR |
| David Melding AC | Y Ceidwadwyr Cymreig | DM |
| Ioan Bellin | Staff Simon Thomas AC | |
| Nigel Ajax-Lewis | Ymddiriedolaethau Natur Cymru | |
| Dave Ashford | Amaethyddiaeth, Llywodraeth Cymru | |
| Richard Bellamy | Cronfa Dreftadaeth y Loteri | |
| Martin Bishop | CONFOR | |
| James Byrne | Ymddiriedolaethau Natur Cymru | |
| Chris Clark | Fferm / Ymgynghoriaeth Nethergill | CC |
| Alison Colebrook | Ymddiriedolaethau Natur Cymru | |
| Tony Davies | Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar | TD |
| Geraint Davies | Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar | |
| Clare Dinham | Buglife Cymru | |
| Haydn Evans | Cymdeithas y Pridd | |
| Rhys Evans | RSPB | |
| Emily Finney | Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru | |
| Marcus Gilleard | Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru | MG |
| Tony Harrington | Dŵr Cymru | |
| Dai Harris | Cadwraeth Natur, Llywodraeth Cymru | |
| Sarah Hetherington | Cyfoeth Naturiol Cymru | |
| Malcolm Horne | Severn Trent | |
| Sorcha Lewis | Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar | |
| Maliha Majeed | Cyswllt Amgylchedd Cymru | |
| Dennis Matheson | Cymdeithas y Ffermwyr Tenant | DM |
| Katy Orford | Y Gwasanaeth Ymchwil | |
| Alex Phillips | WWF | |
| Llinos Price | Coed Cadw | |
| Matt Rayment | Rayment Consulting Services | MR |
| Hannah Scrase | Ailwylltio Prydain | HS |
| Lorna Scurlock | Y Gwasanaeth Ymchwil | |
| Rachel Sharp | Ymddiriedolaethau Natur Cymru | |
| Liz Smith | Cyswllt Amgylchedd Cymru | |
| Karen Stothard | Llywodraeth Cymru | |
| Andrew Tuddenham | Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru | AT |
| Arfon Williams | RSPB | AW |
| Rebecca Williams | Country Land Association | RW |
| Natasha Yorke-Edgell | RSPB | |

## Pwyntiau Allweddol o'r Cyfarfod

**1) Sylwadau agoriadol**

Croesawodd ST y rhai a oedd yn bresennol i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Fioamrywiaeth. Nododd y byddai cloch yn canu am 13.00 ac y byddai munud o dawelwch yn cael ei chynnal i gofio am ddioddefwyr yr ymosodiad bom ar Arena Manceinion.

Fel llefarydd Plaid Cymru ar faterion gwledig, pwysleisiodd ST fod ei rôl yn cynnwys amrywiaeth eang o faterion gwahanol, gan gynnwys bioamrywiaeth, rheoli tir a materion amgylcheddol eraill a fydd yn codi ar ôl Brexit.

Gohiriwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol tan ar ôl i'r ACau eraill gyrraedd.

**2) Rheoli Tir Cynaliadwy a Cyswllt Amgylchedd Cymru: Yr angen am bolisïau newydd sy'n sicrhau bod nwyddau cyhoeddus yn cael eu creu gydag arian cyhoeddus**

Cyflwynodd AT, sy'n ymgynghorydd bwyd a ffermio ar gyfer Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, rwydwaith Cyswllt Amgylchedd Cymru sy'n gasgliad o 27 o sefydliadau sy'n gweithio ar themâu a pholisïau cyffredin gyda'r nod o gael y fargen orau ar gyfer yr amgylchedd.

Soniodd am arwynebedd y tir yng Nghymru, gan dynnu sylw yn y cyflwyniad at y ffaith bod 30 y cant o dir Cymru mewn ardaloedd sydd â gwerth natur uchel. Roedd y mapiau'n dangos y bylchau o ran diogelu a chyfeiriodd AT at y ffaith bod Adroddiad y Wladwriaeth o Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn dangos nad oes ecosystemau gwydn yng Nghymru. Pwysleisiodd fod pwysau taer a sylweddol ar amgylchedd Cymru, yn bennaf o ganlyniad i golli cynefinau a risgiau cynyddol i ansawdd dŵr.

Tynnodd AT sylw at Weledigaeth Rheoli Tir Cynaliadwy Cyswllt Amgylchedd Cymru - sy'n dadlau y dylai arian cyhoeddus fod ar gael ar ôl Brexit i'w fuddsoddi mewn gwytnwch ecolegol er mwyn cyflawni'r budd gorau i'r cyhoedd. Mae angen i'r setliad ariannol hefyd gyflawni amcanion yr amgylchedd yn llawn, heb effeithiau negyddol fformiwla Barnett. Ychwanegodd fod Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi nodi hyn yn eu tystiolaeth i ymgynghoriad 'Health and Harmony' DEFRA.

Aeth ymlaen i esbonio rhai elfennau penodol o'r Weledigaeth Rheoli Tir Cynaliadwy, gan gynnwys:

- Dadlau dros yr anogaeth, y canllawiau a'r hyfforddiant cywir ar gyfer rheolwyr tir er mwyn helpu i warchod natur ac i'w gwneud yn annerbyniol i niweidio byd natur.
- Dylai tir chwarae rhan yn yr ymdrech i leihau ôl troed carbon Cymru, a bydd hynny yn ei dro'n helpu busnesau gwledig cynaliadwy a thwristiaeth.
- Defnyddio dull sy'n seiliedig ar le penodol, gyda pholisïau a gydlynir yn well o ran cynhyrchu, rheoli adnoddau ac iechyd y cyhoedd.
- Gwella mynediad at fwyd da, lleihau gwastraff a gwarchod adnoddau naturiol.
- Rhaid i hyfforddiant fod ar gael i reolwyr tir er mwyn iddynt barhau i fod yn arloesol ac er mwyn hyrwyddo buddion cymdeithasol ehangach a mecanweithiau marchnadau newydd.

Dywedodd AT fod Cyswllt Amgylchedd Cymru yn croesawu dull cyfunol Llywodraeth Cymru ynghyd â'r pum egwyddor a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet yn ddiweddar ar reoli tir; pwysleisiodd fod angen mwy o waith i gyflawni'r newid ond bod gan aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru y profiad i gynorthwyo llunwyr polisi.

**3) Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Gofynnodd ST a oedd Aelodau'r Cynulliad yn dymuno ailsefydlu Grŵp Trawsbleidiol ar Fioamrywiaeth. Cynigodd y gellid geirio'r amcan fel a ganlyn: 'hybu a hyrwyddo achos bioamrywiaeth ymhellach yng Nghymru, yn enwedig o ran rheoli tir.'

Gofynnodd JR a ddylai amcan y Grŵp Trawsbleidiol fod â mwy o ffocws, o ystyried bod grwpiau trawsbleidiol eraill i'w cael ar faterion gwledig a choedwigaeth. Awgrymodd y byddai rheoli tir yn flaenoriaeth allweddol. Dywedodd LP a RS y byddai hyn yn hepgor yr elfen forol. Dywedodd RS ein bod ni *"yng nghanol chweched ddifodiant mawr bywyd"* felly roedd angen edrych ar adfer bioamrywiaeth yn ei hystyr ehangaf, nid dim ond elfennau unigol ohoni.

Awgrymodd ST fod yr amcan yn parhau i fod yn eang, ond bod lle i'r drafodaeth fod yn fwy penodol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.  cytunodd JR.

Cynigiodd ST mai Cyswllt Amgylchedd Cymru ddylai ddarparu ysgrifenyddiaeth y grŵp; ni chynigiwyd neb arall a cytunodd y rhai a oedd yn bresennol eu bod yn fodlon ar i Gyswllt Amgylchedd Cymru barhau i ddarparu'r ysgrifenyddiaeth.

O ran cadeirio, enwebodd JR ST ac felly fe'i etholwyd.

**4) Senarios Brexit a Graddfa Angen (Matt Rayment). *Faint o arian y dylai rheolwyr tir ei gael er mwyn cyflawni ymrwymiadau amgylcheddol Cymru?***

Rhoddodd MR gyflwyniad, yn amlinellu sut mae'r RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt wedi comisiynu astudiaeth yn ddiweddar sydd yn edrych ar y cyllid sydd ei angen i ddod â deddfwriaeth amgylcheddol i rym.

Dyma'r prif bwyntiau a wnaed:

- Yn yr astudiaeth, edrychwyd ar y cyfraddau presennol a llunio hafaliadau yn seiliedig ar hyn, megis cost llafur, cost cnydau a thanwydd.
- Roedd yr amcanion ar gyfer yr amgylchedd yn cynnwys bioamrywiaeth, gwarchod y tirlun, yr amgylchedd hanesyddol, ansawdd y pridd, ansawdd dŵr a newid yn yr hinsawdd.
- Nododd fod gan rai blaenoriaethau amgylcheddol dargedau cliriach na'i gilydd (e.e. mae ansawdd dŵr yn fwy syml o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr).
- Nododd MR fod senarios cyfnewidiol o ran sut y bydd rheoli tir yn newid ar ôl y Polisi Amaethyddol Cyffredin a bod ynddynt le i ymdopi â gwahanol sefyllfaoedd.
- O ran cyfrifo tir/cynefinoedd, roeddent wedi cyfrifo 2.1 miliwn hectar yng Nghymru. Mae tua 460,000 hectar yn gynefinoedd â blaenoriaeth, sef tuag 20 y cant o arwynebedd tir yn gyffredinol.
- Datgelodd mai £205 miliwn y flwyddyn oedd ei amcangyfrif cyntaf o gostau yng Nghymru, yn seiliedig ar daliadau rheoli tir presennol (£2.2 biliwn ledled y DU). Byddai llawer o'r arian hyn yn mynd tuag at gynnal cynefinoedd â blaenoriaeth.
- Wedi i'r fformiwla gael ei addasu, mae'r ffigyrau terfynol ychydig yn uwch (o ganlyniad i brisiau'n newid ar gyfer cnydau, cyfraddau cyfnewid, llafur ac ati). Maent yn £210m y flwyddyn a £2.3 biliwn ledled y DU.
- Esboniodd MR fod yr algorithm hwn yn caniatáu i'r effeithiau unigol sy'n digwydd o ganlyniad i newid y costau gael eu nodi'n briodol yn ogystal a'u heffaith.
- Mae hyn yn gynnydd ar y taliadau cyfredol; yr amcangyfrif presennol yw £78m o daliadau Colofn 2 yng Nghymru (o 2016), allan o £338 miliwn o daliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- Dywedodd y byddai delio ag ymrwymiadau amgylcheddol hefyd yn dod ag ystod eang o

fuddion economaidd a chymdeithasol, er y nodir y bydd hyn yn dibynnu ar yr uchelgais.

Dywedodd MR nad oedd pob sefyllfa wedi cael eu hasesu'n fanwl eto, ond roedd yn gobeithio y gellid mireinio'r model a'i ddatblygu ymhellach i helpu i lywio trafodaeth ar anghenion ariannol ar ôl Brexit.

Gofynnodd HS a yw'r model hwn yn ddigon cadarn i'w ddefnyddio ar gyfer ardal lai (ee rhanbarth, nid gwlad). Dywedodd MR y byddai'n bosibl ac y gellid ei ddefnyddio ar gyfer dadansoddiad rhanbarthol mwy manwl. Gellid defnyddio gwahanol gostau hefyd pe byddent yn amrywio mewn un ardal.

Gofynnodd hefyd ai'r ymrwymiadau amgylcheddol sydd eisioes yn bodoli oeddent ynteu a oeddent yn mynd y tu hwnt i hynny; ymateb MR oedd fod hyn y rhywbeth y tu hwnt i waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, er mwyn adfer cynefinoedd i amodau mwy ffafriol.

**5) Brecsomeg Gwyrdd - Chris Clark. *Beth all ffermwyr ei wneud i baratoi eu busnesau ar gyfer Brexit?***

Eglurodd CC fod ei gefndir mewn amaethyddiaeth, a'i fod bellach yn rhedeg fferm yn Yorkshire Dales, sydd wedi gweld twf mewn bioamrywiaeth yn ddiweddar gyda grugiar ddu yn dychwelyd ar ôl sawl blwyddyn. Mae ganddo ysgubor natur hefyd i helpu gwesteion ac ymwelwyr i ddysgu mwy am y cydbwysedd rhwng bwyd, ffermio a natur. Mae ei waith ymgynghorol yn helpu ffermwyr i baratoi ar gyfer Brexit.

Dywedodd fod gwir angen amcan glir, a nododd ei weledigaeth, sef bod: "*Yr Ucheldiroedd yn gydbwysedd rhwng ffermio bwyd, natur, a'r cymunedau sy'n byw yno".* Mae CC yn annog pobl i gynllunio ar gyfer eu busnesau'n drylwyr, gan helpu ffermydd i symud i ffwrdd o feddylfryd yn ymwneud â chynhyrchu at fodel busnes yn seiliedig ar lwfansau.

CC Amlinellodd yr hyn a ddarganfuwyd wrth ymgymryd â hyn:

Bod llif arian yn fwy o broblem na chynhyrchu, heb fawr o ymrwymiad gan reolwyr tir o ran cyllidebu / cynllunio.

Roedd angen iddo drafod gyda ffermwyr sut roedd modd iddynt dalu eu costau a rhoi gwersi a ddysgwyd yn y byd busnes ar waith yn y diwydiant ffermio.

Tynnodd sylw at gostau newidiol llinol a di-linell - dywedodd fod ffermydd mynydd yn dod i bwynt lle maen nhw ar fin torri wedi iddynt dalu'r costau. Mae'n dibynnu cymaint mae'r fferm yn dibynnu ar laswellt ac ar borthiant o'r gaeaf i fod yn llwyddiannus. Wedi'r pwynt hwn, mae gwrtaith, costau bwydo'r anifeiliad dros y gaeaf a chostau milfeddygon a meddyginiaeth yn cynyddu - ac mae elw yn lleihau fesul hectar - gan fod rhaid iddynt ddibynnu ar fwyd solet dros y gaeaf.

Dywedodd CC fod incwm yn cael ei gyfyngu fel arfer gan gredyd incwm neu gredyd treth teulu.

Canfu, pe baent yn lleihau eu hallbwn o 100 y cant i 58 y cant, byddai modd iddynt dalu'r costau (heb gostau gywirol newidiol). Dywedodd ei bod yn anodd iawn i argyhoeddi ffermwyr y byddant yn gwneud mwy o elw gyda llai o anifeiliaid.

Daeth i'r casgliad bod ffermydd ucheldirol yn gwneud mwy o elw gyda llai o anifeiliad ac y dylai'r cyfraddau stocio gael eu pennu gan faint o fwyd y gellir ei dyfu ar y fferm er mwyn para trwy'r gaeaf hir. Ymddengys mai dyma o ble mae'r ffigur 58 y cant yn dod.

Heb gymhorthdal, dywedodd y byddai angen cynyddu nifer yr anifeiliaid ar y mynyddoedd ucheldirol x2.8 gwaith a chynyddu prisiau x1.8 gwaith - sydd bron yn amhosib, felly mae angen newid y model busnes. Trwy leihau'r cyfradd stocio, mae'n gwneud y busnes yn fwy hyfyw ac yn gwella'r effaith ar yr amgylchedd o ganlyniad i hynny.

Diolchodd ST i'r cyflwynwyr a gofynnodd i Gyswllt Amgylchedd Cymru ddosbarthu copi o'r cyflwyniadau i ACau a'r rheini a oedd yn bresennol ar ôl y cyfarfod.

**6) Sesiwn holi ac ateb**

Gofynnodd un o'r rheini a oedd yn bresennol p'un a oedd model CC yn ystyried y fasnach cig coch; Dywedodd CC ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar gig oen ond roedd yn credu y byddai'n gweithio gyda ffermydd eraill, gan fod y ffocws ar gynhyrchu.

Gofynnodd RS a oedd gwaith CC wedi'i ariannu neu a oedd yn ei wneud fel rhan o'i waith ymgynghori; Eglurodd CC mai ei waith ymgynghori ei hun ydoedd, ond bod ganddo nifer o gleientiaid gwahanol.

**7) Sesiwn Dechnegol**

Ar ôl seibiant am luniaeth, dechreuodd AW drafodaeth pethau mewn mwy o fanylder.

**8) Trafodaeth: Graddfa'r Angen**

Agorodd MR y drafodaeth drwy esbonio bod y cyfrifiadau yn ei waith ymchwil yn ei fodel ef yn seiliedig ar y system reoli tir bresennol. Dywedodd, os bydd y rheolau yn newid a piler 1 / y system PAC yn peidio â bodoli, yna efallai y bydd costau ychwanegol, ac mewn rhai achosion, efallai y bydd arbedion hefyd. Esboniodd MR fod hwn yn faes y cyfeiriwyd ato yn ei fodel, ac hefyd yn un y gellid ei archwilio ymhellach.

Dywedodd un o'r rheini a oedd yn bresennol nad yw'r rhan fwyaf o'n coetiroedd yn gymunedau sefydlog a gofynnodd i MR p'un a oedd wedi edrych ar ddulliau eraill o fodelu, er enghraifft dros le ac amser, gan ystyried y newidiadau i reolaeth gynaliadwy sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Ymatebodd MR trwy ddweud, ar hyn o bryd, bod yr elfennau wedi'u cynnwys fel y maent, ond y gallai edrych ar sut y gallai'r systemau hyn weithio gyda'r newidiadau neu edrych ar systemau hollol wahanol. Eglurodd MR fod y model hefyd wedi edrych ar y trosolwg o systemau rheoli, ond y byddai angen dull o weithredu a oedd yn berthnasol ar gyfer y lle sydd ar gael mewn rhai achosion.

Soniodd TD am "*dargedau disgwyliedig* " ac esboniodd fod yna rai ffermydd a allai deimlo bod angen ehangu ymhellach os byddant yn colli arian. Bu'r rhai a oedd yn bresennol hefyd yn trafod dulliau yn seiliedig ar y farchnad ar gyfer chwynladdwyr a phlaladdwyr. Dywedwyd bod cwmnïau'n cael eu talu am wasanaethau sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion isaf o ran cydymffurfiaeth.

Gwnaeth y rheini a oedd yn bresennol sylw ynghylch pa' mor anodd yw hi i dderbyn costau darparu nwyddau cyhoeddus a'r heriau cyffredinol o ran monitro nwyddau cyhoeddus. Ychwanegodd RW fod cyflwyniad MR yn canolbwyntio ar gostau, ond bod angen canolbwyntio ar werth hefyd, yn ogystal â dangos y risg sy'n gysylltiedig ag ef. Mae'r gwerth, er enghraifft, o gael aer a dŵr glân yr un mor bwysig ac yn helpu i annog pobl i brynu stoc. Cytunodd MG a dywedodd y byddai pris mawr i'w dalu os na fyddent yn gweithredu ar hyn.

Trafododd y grŵp hefyd y rôl sydd gan gwmniau dŵr i'w chwarae ac amlygrwydd mecanweithiau yn seiliedig ar y farchnad (ee atal llifogydd). Pwysleisiwyd pwysigrwydd cydweithio gydag ystod eang o bobl / rhanddeiliaid ym maes rheoli tir yn gynaliadwy.

Ymatebodd MG i gyflwyniad CC drwy ddweud y byddai'n rhaid i'r model fod yn hyblyg a gallu adlewyrchu cefnogaeth i nwyddau cyhoeddus.

**9) Trafodaeth: Brecsomeg Gwyrdd**

Esboniodd CC fod ei gefndir ym myd ffermio, ac fe arweiniodd hyn at ei rôl bresennol mewn marchnata a rheoli busnes yn y byd ffermio. Tynnodd sylw at y ffaith na welodd newid tan iddo ddechrau ystyried gwerth gynyddol ffermio mynydd a'i drin fel busnes. Eglurodd fod y dull o drin busnesau fferm yn wahanol bellach - mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar ddiwydiant, yn hytrach nag ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y diwydiant ffermio dros y 60 mlynedd diwethaf. Meddyliodd CC am yr amrywiaeth ar ei fferm ei hun, sy'n cynnwys da byw, tai gwyliau, BPS/HLS, RHI/FITS, a ffrydiau refeniw eraill. Soniodd mor bwysig yw hi nad oes mwy nag 20 y cant o allbwn y busnes yn dod o un cwsmer unigol.

Y mater allweddol a nodwyd gan CC oedd nad yw ffermwyr fel arfer yn trin y fferm fel busnes. Eglurodd nad oedd llawer o bobl yn deall llifau arian yn y byd ffermio. Tynnodd sylw at yr angen i drin ffermydd fel busnesau, i ddeall asedau (gan sicrhau bod yr holl asedau yn cael eu hystyried, gan gynnwys gwerth stoc), a defnyddio technegau marchnata. Canolbwyntiodd CC ar ffermio mynydd ac eglurodd, yn y pen draw, nad oedd ffermio mynydd yn broffidiol unwaith iddo gyrraedd pwynt penodol. Dangosodd dadansoddiad CC o ffermydd mynydd fod rhai ffermydd mynydd wedi cyrraedd pwynt lle maen nhw ar fin torri, lle mae maint y fferm, y costau sefydlog a'r costau newidiol yn fwy na'r elw maent yn ei wneud. Trwy leihau stoc, roedd allbwn y fferm yn llai ond roedd yr elw yn uwch. Eglurodd CC, gyda chostau o'r fath, bod costau sefydlog yn parhau i fod yn sefydlog oherwydd bod eu cyfradd newid yn araf, ond roedd eu dibyniaeth ar gostau newidiol cywirol, sy'n bennaf yn dod o incwm priodasol, yn lleihau. Dangosodd ddadansoddiad CC na ddylai ffermwyr mynydd orfod trio cywiro anfanteision yn ymwneud â'r tywydd, lledred, neu uchderau drwy ychwanegu costau newidiol cywirol.

Nododd CC y dylid edrych ar y newidiadau angenrheidiol yn eu cyd-destun ac mae'r hyn a allai gynnal y cydbwysedd a sicrhau bod elw yn y byd ffermio yn wydn ac yn gadarn yw model busnes. O ran ffermydd mynydd, roedd hyn yn golygu lleihau da byw. Dywedodd CC bod hyn yn ehangu bioamrywiaeth o ganlyniad. Soniodd CC am ei brofiad o ymgynghori â ffermwyr a soniodd am y sioc, yr anghrediniaeth, a'r straen y mae ffermwyr yn ei deimlo pan fydd y system bresennol yn cael ei esbonio iddynt ar ffurf model busnes. Pwysleisiodd CC eto bwysigrwydd trin fferm fel busnes a gweithredu felly.

Trafododd y grŵp berthnasedd dulliau amgen CC o ffermio a'r cyfyngiadau sy'n debygol o fod, megis rheolau llym ynghylch cynhyrchu llaeth. Dywedodd CC y byddai'n ystyried ffermio âr ac yn gwneud peth ymchwil i wahanol fathau o ffermio.

Bu'r grŵp hefyd yn trafod yr heriau sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyllid a galw defnyddwyr. Pwysleisiodd CC bod galw cynyddol am ddefaid a dywedodd ein bod mewn cyfnod cymdeithasol sy'n teimlo mai "peth amheuthun yw cig". Trafododd y grŵp newidiadau o ran agwedd ac ymddygiad a allai effeithio ar landlordiaid, tenantiaid a ffermwyr. Trafodwyd hefyd y gwrthdaro posibl a allai ddeillio o roi dull i leihau stoc ar waith gyda gofynion cytundeb tenantiaeth (trafodwyd hefyd y broses o orchymyn tir i'w ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth).

Gofynnodd un o'r rheini a oedd yn bresennol i CC beth fyddai cost gwneud y fath ddadansoddiad ar fferm unigol yn debygol o fod, yn fras. Yn ei ymateb, dywedodd CC fod ffermwyr yn cael siart o'r dadansoddiad pwrpasol fel yr un a ddangosir yn ei gyflwyniad am £500.

Gwnaeth DM sylw ar y gwahaniaeth rhwng costau gweithredu un fferm o gymharu â fferm arall, ac awgrymodd y byddai treialu'r dull lleihau stoc yn ddefnyddiol ac yn bwysig cyn ystyried pa mor berthnasol ydyw.

Gwnaeth RW sylw ynghylch talu am nwyddau cyhoeddus a chynhyrchu bwyd ar ran y sector ffermio

yn seiliedig ar ei gwaith gyda CLA. Eglurodd fod pobl wedi dweud wrth ffermwyr mai eu rôl nhw yn y gymdeithas yw cynhyrchu bwyd. Roedd hi'n cydnabod bod angen newid hyn, ond pwysleisiodd nad yw newid yn digwydd dros nos.

Pwysleisiodd y rhwystrau/heriau i ymgorffori newidiadau y "*byd newydd*" a dywedodd bod symud i le cadarnhaol yn bwysig. Awgrymodd RW hefyd y syniad o weithio gyda'r adran Datblygu Sgiliau yn Llywodraeth Cymru er mwyn darganfod pa fath o brentisiaethau bydd ar gael i ffermwyr yn y dyfodol ac ystyried sut mae ychwanegu gwerth i nwyddau cyhoeddus.

Daeth AW â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r cyflwynwyr, Aelodau Cynulliad, a phawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn nhrafodaethau'r dydd.